

Adroddiad Wedi Ymgynghoriad

Ysgol Pencaerau – Gorchymyn Traffig Arbrofol

Rhif project: CO19060

Cynhaliwyd ymgynghoriad ar y cynigion cynllun uchod rhwng 4 Gorffennaf 2019 a 27 Gorffennaf 2019, er y cafodd unrhyw ohebiaeth a dderbyniwyd yn fuan ar ôl y dyddiad cau ei chynnwys yn rhan o'r adroddiad hwn. Diben yr ymgynghoriad oedd cael gwybodaeth gan y gymuned leol er mwyn gwella'r cynllun ac os yn bosibl mynd i'r afael ag unrhyw bryderon lleol.

O'r 60 eiddo yr ymgynghorwyd â nhw a'r 6 hysbysiad safle a arddangoswyd ar y safle, derbyniwyd 1 ymateb unigol sydd wedi'i grynhoi isod:

- 1 yn cefnogi'r cynnig
- 1 naill ai'n gwrthwynebu neu'n cefnogi'r cynnig

Dangosir y pryderon a'r sylwadau mewn ysgrifen *italig* isod, ynghyd ag ymateb y Cyngor.

Argymhelliad

Oherwydd yr isod, cynigir **bwrw ymlaen** â'r cynnig ar yr amod bod cyllid ar gael. Byddai'r GRhTDD ar waith am 18 mis a byddai'n weithredol yn ystod amser tymor yn unig yn rhan o gyfnod treial. Bydd y GRhTDD yn gwahardd cerbydau rhag mynd i mewn i Cyntwell Avenue, neu yrru ynddo, rhwng **8:30am a 9.15am** a rhwng **2.45pm a 3.45pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener**. Bydd hyn yn hwyluso diogelwch disgyblion, rhieni a gofalwyr y tu allan i Ysgol Pencaerau ar ddechrau ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol.

Ceir isod sylwadau a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd yn erbyn y cynnig:

Mater – Bydd y broblem parcio'n symud i strydoedd cyfagos

“Nid yw'r cynnig hwn yn mynd yn ddigon pell...dylai effeithio ar bob rhan o Cyntwell Avenue (ac eithrio trigolion). Byddwn yn awgrymu y dylai cynrychiolwyr weld i'w hunain y problemau sy'n cael eu creu, nid yn unig gan y plant (gan fod ganddynt hawl gyfreithiol i fynychu'r ysgol) ond gan eu rhieni sy'n parcio eu cerbydau'n anghyfreithlon ar balmentydd, ar dramwyfeydd trigolion. Ar y “lawnt” mae arwyddion sy'n dweud na chaniateir gemau â pheli ar y lawnt, ond gallant barcio eu ceir yno. Dylent ddangos ystyriaeth i ni, y trigolion sy'n byw yma, maent yn parcio fel yr hoffen nhw. Mae parcio dwbl yn gyffredin.”

Mae'r cyfyngiad wedi'i ddylunio i gydbwysu anghenion trigolion, mynychwyr yr ysgol, gofynion gweithredol yr ysgolion a diogelwch y plant.

Mae graddau presennol y cyfyngiad sydd ar waith yn benodol o ganlyniad i bryderon diogelwch a achosir gan gerbydau sy'n gorfod gwneud symudiadau cymhleth megis troadau pum pwynt neu fynd am yn ôl mewn ffordd pen caeedig fach o gwmpas llawer o blant ysgol.

Fodd bynnag, gan mai treial 18 mis yw hyn, caiff y sefyllfa hon ei monitro'n ofalus ac ar ddiwedd y treial ystyrir a ellir ymestyn ardal y cyfyngiad.

Ceir isod sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori sydd o blaid y cynnig:

“Helo, rwy'n byw yn Cyntwell Avenue ac rwy'n hapus gyda'r cyfyngiadau parcio arfaethedig gan ei bod yn broblem gyson yn yr ardal.”

“Mae gan blant yr hawl i gyrraedd yr ysgol a'i gadael yn ddiogel ond nid dyma'r achos yma, maen nhw mewn perygl gan fod rhaid iddynt gerdded ar y ffordd gan na allant ddefnyddio'r palmentydd gan fod ceir wedi'u parcio arnynt.”

Ceir isod sylwadau ychwanegol a gafwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ynghylch materion eraill a gododd o'r ymgynghoriad:


Sylw – All yr amseroedd newid i gyd-fynd ag amseroedd gorffen y Feithrinfa?

“Un peth rwy'n meddwl sydd angen ei ystyried yw Meithrinfa'r ysgol, mae meithrinfa'r bore yn gorffen am 11.30am ac mae meithrinfa'r prynhawn yn gorffen am 12.30pm ac mae'r un mor brysur ag amseroedd gollwng a chasglu'r bore a'r prynhawn.”

Byddwn yn awgrymu y byddai cyfyngiad diwrnod ysgol llawn i draffig ysgol yn fanteisiol ac y dylai gael ei weithredu, nid yn unig yn y bore ond yn y prynhawn.”

Wedi gweithredu'r cynllun, bydd yr Awdurdod Lleol yn asesu a monitro'r cynllun, bydd hyn yn cael ei wneud gan gyfathrebu â'r Ysgol a chaiff ymweliadau safle eu cynnal yn ystod yr amseroedd cyfyngedig i asesu effaith y cynllun. Os caiff materion diogelwch ar y ffyrdd eu nodi yn ystod y broses o fonitro'r cynllun hwn, caiff y materion hyn eu cyfeirio at y tîm Gorchymyn Rheoli Traffig i ymchwilio iddynt er mwyn penderfynu a oes angen cyfyngiadau ychwanegol neu ddiwygiedig.

Yn dilyn ymgynghoriadau diweddar ar gynnig rheoli traffig, mae'r Cyngor yn paratoui weithredu'r cynllun rheoli traffig yn seiliedig ar y cynllun. Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/ Projectautrafnidiaeth ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'.



Following the recent consultation on a traffic management proposal, the Council is preparing to implement the scheme based on the plan shown. Further details about this consultation are available at cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link.